CREST AWARDS

GWOBR EFYDD

# Beth sy'n gwneud i fara godi?

10H Yn gyffredinol, 10 o waith prosiect.
Yn addas i bobl ifanc 11 i 14 oed



**Prosiect ymarferol**

Ymchwiliwch i ryseitiau bara gwahanol a lluniwch arbrawf i gael bara sy'n codi'n berffaith.

#bwyd
#microbioleg
#peirianneg



# SUT I GYNNAL CREST GAN DDEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

Ydych chi'n chwilio am gymorth? Gallwch ddod o hyd i Fentor drwy gysylltu â'ch hyb Llysgenhadon STEM lleol: https://www.stem.org.uk/stem-ambassadors/local-stem-ambassador-hubs

## I ddefnyddio eu prosiect i gyflawni Gwobr Efydd CREST, bydd yn rhaid i'ch myfyriwr:

- Gwblhau o leiaf 10 awr o waith prosiect
- Ystyried effaith ehangach ei brosiect a dangos
- Cwblhau llyfr gwaith y prosiect neu adroddiad byr ar ffurf arall
- Adfyfyrio ar ei waith yn ystod y prosiect gan ddefnyddio ffurflen proffil myfyriwr

### Paratoi

Ydych chi'n barod i gychwyn arni gyda CREST? Cofrestrwch am gyfrif CREST yma: **www.crestawards.org/sign-in**

Creu prosiect Gwobr Efydd newydd gydag enw(au) y myfyriwr/wyr a theitl y prosiect. Os nad oes gennych yr holl fanylion, gallwch lenwi'r rhain yn hwyrach!

### Cwblhau'r prosiect

Mae gennym lyfrau gwaith hynod ddefnyddiol a phroffiliau i'ch myfyrwyr eu defnyddio wrth gwblhau gwaith am wobr CREST. Gallwch eu lawrlwytho pan fyddwch yn creu eich cyfrif CREST drwy ddilyn y ddolen uchod.

Anogwch i'ch myfyrwyr ddefnyddio'r llyfr gwaith neu broffil i gynllunio a gwneud eu prosiect, gan gadw cofnod o'u holl gynnydd gwych.

Sicrhewch eich bod chi'n ystyried diogelwch a risgiau!

### Adfyfyrio

Felly, mae'ch myfyrwyr wedi bod yn gweithio'n galed ac wedi cwblhau eu prosiect CREST, ond nid dyma'r diwedd ar eu dysgu Nawr, dylen nhw lenwi unrhyw rannau sy'n weddill yn eu lyfr gwaith. Dyma gyfle iddynt adfyfyrio ar yr holl bethau diddorol maent wedi'u dysgu a'r sgiliau hynod werthfawr maent wedi'u defnyddio.

### Cofrestrwch eich prosiect chi am Wobr Efydd CREST

Mae gwaith caled yn haeddu gwobr! Dathlwch ac ardystiwch yr hyn mae'ch myfyriwr wedi'i gyflawni drwy gofrestru eu prosiect am Wobr Efydd CREST. Yn syml iawn:

Mewngofnodwch i'ch cyfrif CREST yn **www.crestawards.org/sign-in** Dewiswch y prosiect a lanlwythwch sampl o lyfrau gwaith y myfyriwr neu dystiolaeth arall o'r prosiect.

Gwiriwch fod y myfyrwyr sy'n cymryd rhan wedi bodloni'r meini prawf ar y dudalen asesiad athrawon.

Yn olaf, cwblhewch y manylion anfon a thalu i archebu eich tystysgrifau crand.

Llongyfarchiadau am gwblhau Gwobr Efydd CREST!

### Beth nesaf?

Does dim rhaid i'r darganfod Gwyddonol ddod i ben yma. Gall myfyrwyr roi cynnig ar y lefel nesaf - CREST Arian.

Rhannwch yr hwyl drwy annog eraill i gymryd rhan mewn prosiectau CREST a rhannu rhyfeddod gwyddoniaeth. Am syniadau am ddim ar sut i gychwyn arni, gweler **www.crestawards.org**

# BRÎFF MYFYRWYR

GWOBR EFYDD



## Beth sy'n gwneud i fara godi?

Caiff gwahanol fathau o flawd eu defnyddio i wneud gwahanol fathau o fara. Mae'r rhan fwyaf o flodiau yn cael eu gwneud drwy falu gwenith. Mae mathau eraill o flawd hefyd sy'n cael eu creu o gynhwysion fel reis, tatws a soia. Ni all rhai pobl fwyta bara oherwydd eu bod yn alergaidd i wenith neu glwten, sydd wedi'i gynnwys mewn gwenith. Felly, maent yn defnyddio blawd amgen, blawd di-glwten er enghraifft. Yn y prosiect hwn, byddwch chi'n gwneud toes bara gan ddefnyddio mathau gwahanol o flawd. Byddwch yn cymharu pa mor dda y bydd y bara'n codi.

### Dechrau arni

Gwneud toes bara: bydd angen blawd, dŵr a burum arnoch i chi wneud toes bara.

Byddwch yn gwneud ychydig bach o does gan ddefnyddio pob un o'ch blodiau gwahanol.

Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n defnyddio'r un maint o gynhwysion ar gyfer pob toes.

Tylinwch does y bara. Caiff toes ei dylino er mwyn dal aer ynddo – cofiwch, er mwyn cael canlyniadau cywir, dylech chi dylino pob math o does am yr un hyd o amser.

Gwthiwch bob toes bara i waelod tiwb berwi gwag - dylai'r holl diwbiau berwi fod o'r un maint. Gwnewch farc ar ochr bob tiwb berwi i ddangos ble mae'r toes yn cyrraedd a rhowch lebl arno.

Gadewch y tiwbiau berwi ar dymheredd o 35 oC. Mae angen i'r toes fod ar y tymheredd hwn er mwyn codi.

Gadewch eich toes am 30 munud ac yna edrychwch ar eich tiwbiau berwi eto.

Nodwch ble mae lefel y toes yn i tiwb.

Y canlyniadau:

Cymharwch eich toesi bara gwahanol a mesur faint maent wedi codi.

Os oes gennych amser, rhowch gynnig ar greu bara drwy ddefnyddio burum gwahanol.

Gallwch ystyried:

Pa mor dda mae'n bara wedi codi ers pobi?

Sut olwg sydd ar y gwahanol fathau o fara?

Sut aroglau sydd ganddynt?

Cymharwch eich mathau gwahanol o fara eto pan fyddant wedi oeri.

### Pethau i'w hystyried

Pa fath o flawd oedd yn y toes a gododd fwyaf?

Pa fath o flawd oedd yn y toes a gododd leiaf?

Os ydych chi'n gwneud y toes yn fara:

Sut mae'r torthau a wnaed gennych yn edrych ar y tu fewn?

A oes llawer o dyllau?

Ydynt yn galed neu'n feddal?

Pa ffyrdd eraill sydd o gymharu'r torthau?

### Adnoddau defnyddiol

Ewch i archfarchnad ac edrychwch ar y gwahanol fathau o flawd sydd ar gael. Darllenwch y pecynnau. Bydd rhaid ohonynt yn addas am wneud bara. Dewiswch amrywiaeth o flodiau gwenith a di-wenith (er enghraifft, di-glwten neu flawd tatws) i wneud toes bara â nhw.

# BRÎFF MYFYRWYR

## GWOBR EFYDD



### Iechyd a Diogelwch

Mae gwaith prosiect gwyddonol yn ddeinamig ac yn gyffrous, ond gall hefyd peri ambell risg. I osgoi damweiniau, sicrhewch eich bod chi'n glynu wrth y canllawiau iechyd a diogelwch canlynol cyn dechrau arni:

- sicrhewch eich bod yn gwybod os yw'r deunyddiau neu'r dulliau'n beryglus.
- rhaid asesu'r risgiau (meddyliwch am yr hyn a allai fynd o'i chwith a pha mor ddifrifol y gallai fod);
- penderfynwch yr hyn mae angen i chi ei wneud er mwyn lleihau'r risg (megis gwisgo cyfarpar amddiffynnol personol, gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng ac yn y blaen);
- sicrhewch fod eich athro'n cytuno â'ch cynllun a'ch asesiad ris

PEIDIWCH â bwyta bara os yw wedi'i greu mewn labordy gwyddoniaeth neu gan ddefnyddio offer gwyddoniaeth. Ar gyfer arbrofion ymprydio/bwyta, rhaid i chi ddefnyddio ystafell technoleg fwyd a dilyn gweithdrefnau hylendid yn ofalus.

### Cofiwch!

Nid data'n unig yw gwyddoniaeth Bydd y prosiectau mwyaf llwyddiannus yn dangos sgiliau cyfathrebu da a syniadau gwreiddiol sy'n mynd i'r afael â phroblemau'r byd go iawn.

Edrychwch ar y byd o'ch cwmpas ac ystyried yr holl ffyrdd arloesol y gallech chi fynd i'r afael â'r her. Hyd yn oed os bydd pethau'n mynd o chwith, defnyddiwch hyn i ddangos yr hyn rydych chi wedi'i ddysgu. Cofiwch ddefnyddio'r ffurflen proffil myfyriwr i helpu i roi strwythur i'ch prosiect.